



hamdden a llyfrgelloedd

aura

leisure & libraries



AURA PLWS UN: CYNLLUN CYDRADDOLDEB I BOBL ANABL

*Mwy o bobl, mwy o feddyliau a chyfrif
actif, yn fwy aml*

Mae Aura Plws Un yn gynllun
cydraddoldeb i bobl anabl sydd yn rhoi
mynediad am ddim i'n canolfannau
hamdden i 'gynorthwyr personol' sy'n
cefnogi ein cwsmeriaid anabl.

Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Rydym yn cydnabod fod rhai pobl anabl
yn ei chael hi'n anodd cymryd rhan
mewn chwaraeon a gweithgareddau
hamdden ac o bosib angen gofalwr/
cynorthwydd personol i fynd efo nhw all
ddyblu'r gost. Ni fydd Aura yn codi ffi ar
gwsmeriaid sydd yno i ddarparu cymorth
un-i-un. Y rheswm dros hynny yw ein
bod yn gwneud ein gorau i fod yn deg
i'n cwsmeriaid ac i'w gwneud hi'n haws
iddyn nhw gymryd rhan.

Mae cwsmeriaid anabl yn gallu cofrestru
ar gyfer Aura Plws Un os ydyn nhw'n
cwrdd â'r meini prawf wedi'i amlinellu
yn y telerau ac amodau (gyferbyni).
Ar ôl cadarnhau eu bod nhw wedi
cwrdd â'r meini prawf byddan nhw a'u
cynorthwydd personol yn derbyn cerdyn
Aura (os nad oes ganddynt un yn barod)
a chofrestriad Aura Plws Un, yn rhad ac
am ddim.

Wedyn, bydd deiliad y cerdyn Aura Plws

Un yn talu am beth bynnag gyfleuster
y maen nhw'n dymuno'i ddefnyddio a'u
cynorthwydd personol yn dod i mewn
am ddim.

Amodau a Thelerau

- Er mwyn bod yn gymwys am Aura
Plws Un rhaid cael tystiolaeth o un o'r
canlynol:
 - Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) / Taliad
Annibyniaeth Personol (TAB)
Lefelau Canolig neu Uchel o ofal
yn unig
 - Lwfans Mynychu Lefel Canolig
neu Uchel o ofal yn unig
 - Wedi cofrestru'n ddal
- Rhaid i'r cwsmer anabl lenwi'r
ffurflenni cais ac nid y cynorthwydd
personol (neu ofalwr). Os oes angen,
gall y cynorthwydd personol helpu'r
cwsmer i lenwi'r ffurflen.
- Mae cwsmeriaid y cynllun yn talu'r
pris presennol ar gyfer unrhyw
gyfleuster y maen nhw'n dymuno'i
ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'r
cynllun yn galluogi cynorthwydd
personol (neu ofalwr) i fynediad
am ddim gan eu bod yn mynychu i
anghenion y cwsmer.
- Bydd holl geisiadau Aura Plws Un
yn ddarostyngedig i ddilysiad gan

gyflogai Aura.

- Gall yr holl gwsmeriaid gael mynediad
i'r gwasanaethau fel rhan o gynllun
Aura Plws Un:

- Ystafell Ffitrwydd
- Dosbarthiadau Ffitrwydd
(Pilates, Tai Chi, Lles, Yoga,
Zumba a Hyfforddiant Cylchol i
Ddechreuwr)
- Nofio i'r Cyhoedd
- Sglerio Rhew
- Chwaraeon Raced

- Bydd yr holl ffurflenni cais Aura
Plws Un yn cael eu hanfon ymlaen
i'r Brif Swyddfa lle bydd cofrestriad
(awdurdodiad) Aura Plws Un yn cael
ei ychwanegu at gyfrif y cwsmer.
Bydd y Prif Swyddfa yn cofrestru
cyfrif newydd ar gyfer y cynorthwydd
personol ac yn anfon y cerdyn Aura
cysylltiedig i gyfeiriad cartref y cwsmer
anabl. Yna gall y cwsmer ddarparu eu
cynorthwydd personol gyda'r cerdyn
Aura ar yr amser y byddan nhw'n
cymryd rhan yn y gweithgaredd o
ddewis.
- Mae angen i gwsmeriaid Aura Plws
Un i ail-ymgeisio ac i adnewyddu'r
cofrestrriad bob 12 mis. Mae hyn
er mwyn sicrhau fod cwsmeriaid
yn parhau i gwrdd â meini prawf y



Hoffi



Dilynwch ni



Like



Follow us